



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH

2025-2030

Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu dyfodol lle mae cynaliadwyedd wrth wraidd addysg, ymchwil ac ymarfer pob dydd—gan anrhydeddu ein dyletswydd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Cenhadaeth Cynaliadwyedd PCYDDS

CYNNWYS

CYNNWYS.....	2
1. Cyflwyniad.....	3
2. Aliniad â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030	4
3. Cefndir a Gofynion Cyfreithiol	5
4. Adeiladu ar lwyddiant yn y gorffennol.....	6
5. Bioamrywiaeth ar y Campws a Chynlluniau Cynghorau Lleol.....	7
5a. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin.....	7
5b Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion	8
5c Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe	8
6. Cynefinoedd a rhywogaethau o bwys cadwraethol	9
6a Rhywogaethau Campws Abertawe	10
6b Rhywogaethau Campws Llambed	11
6c Rhywogaethau Campws Caerfyrddin	14
7. Targedau CAMPUS	17
8. Monitro ac Adrodd.....	18
9. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill	19

1. Cyflwyniad

Diffinia'r WWF fioamrywiaeth fel "yr amrywiaeth o anifeiliaid, planhigion, ffyngau a micro-organebau sy'n ffurfio'r byd naturiol. Mae pob rhywogaeth ac organeb yn gweithio gyda'i gilydd mewn ecosystemau i gynnal cydbwysedd a chynnal bywyd". Darpara bioamrywiaeth wasanaethau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer ein goroesiad, gan gynnwys lliniaru llifogydd, darparu dŵr ac aer glân, peillio cnydau a chynhyrchu adnoddau naturiol megis glo a phren. Nid yw gwerth cynhenid bioamrywiaeth wedi'i gyfyngu i ddolydd toreithiog neu goedwigoedd glaw, ond mae'n ymestyn i erddi cefn, hen chwareli, toeau ffatri a bron unrhyw ofod arall.

Mae parhau i hyrwyddo a diogelu bioamrywiaeth yn hollbwysig gan ei bod dan fygythiad gartref ac yn rhyngwladol. Mae gweithgareddau anthropogenig yn bennaf gyfrifol am ddirywiad ar raddfa eang mewn bioamrywiaeth. Newidiadau o ran defnydd tir, arferion rheoli amaethyddol a choetiroedd, llygredd dŵr ac aer a dwysáu datblygiad yw dim ond rhai o'r ffyrdd rydyn ni wedi effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth fyd-eang.

Ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, rydyn ni'n deall effaith amgylcheddol ein gweithgareddau a'n nod yw mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol a lliniaru a chyflawni cynnydd net bioamrywiaeth. Felly, rydyn ni wedi gweithredu ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2025 – 2030. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio bodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Rhan 6 o Fil yr Amgylchedd 2020 a gweithio tuag at y nod o 'Gymru Gydnerth' a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Sefydlwyd y CGB hwn a'r System Rheoli Amgylcheddol hon i'n helpu ni i gyflawni hyn. Mae cwmpas y dogfennau hyn yn cwmpasu tri o gampysau PCYDDS; Abertawe, Llambled a Chaerfyrddin.

Rydyn ni wedi ymrwymo nid yn unig i wneud yn fawr o werth ecolegol cynefinoedd sydd eisoes yn bresennol ar ein campysau, wrth gadw eu gwerth swyddogaethol, ond hefyd i gynyddu faint o fannau gwyrdd sy'n bresennol ar y campws. Ar wahân i welliannau amgylcheddol, rydyn ni'n gobeithio y bydd camau gweithredu ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) yn creu buddion corfforol a meddyliol cadarnhaol i'n staff a'n myfyrwyr.

Mae PCYDDS yn mapio ei pholisïau amgylcheddol o ran Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac mae'r Cynllun Gweithredu hwn wedi'i fapio o ran y Nodau canlynol.



Dogfen weithio fyw yw'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn a chaiff ei adolygu o leiaf bob pedair blynedd. Nid yw'r CGB yn canolbwyntio ar gynlluniau gweithredu cynefin neu rywogaethau penodol, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar bedwar nod ehangach, sydd, yn ei dro yn cwmpasu cynlluniau penodol. Mae'r nodau'n cynnwys:

1. Rheoli ac Adrodd
2. Arolwg, Monitro a Rheoli Data
3. Rheoli Cynefinoedd a Rhywogaethau
4. Ymgysylltu, Codi Ymwbybyddiaeth ac Addysg

Nodwyd camau gweithredu penodol a gynlluniwyd i gyflawni'r nodau hyn yn adran Cynllun Gweithredu'r ddogfen hon, ynghyd ag amserlenni ar gyfer eu cwblhau a'u cyswllt arweiniol.

2. Aliniad â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030

Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn yn ddogfen gyflawni allweddol sy'n ategu Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025–2030, sy'n cyfieithu ymrwymïadau strategol y Brifysgol yn gamau gweithredu wedi'u targedu i ddiogelu, gwella ac adfer bioamrywiaeth ar draws ei champysau.

Mae bioamrywiaeth yn elfen graidd o flaenoriaeth Ystâd Gynaliadwy'r Brifysgol, a llwyddiant wedi ei fesur trwy nodi, dynodi a gwella gofodau bioamrywiaeth ar draws safleoedd y brifysgol. Mae'r Cynllun hwn yn darparu'r fframwaith y bydd y canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni trwyddyn nhw.



Mae'r Cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni pileri craidd y Strategaeth:

EIN POBL: Trwy ymgysylltu â staff a myfyrwyr mewn mentrau bioamrywiaeth, gwirfoddoli ac addysg, mae'r Cynllun hwn yn meithrin diwylliant o stiwardiaeth amgylcheddol. Mae hefyd yn cefnogi lles trwy ragor o fynediad at fannau gwyrdd o ansawdd uchel ac yn darparu cyfleoedd i ymgorffori bioamrywiaeth mewn addysgu, ymchwil a phrofiad myfyrwyr.

EIN PWRPAS: Drwy gyflawni gwelliannau mesuradwy o ran ansawdd cynefinoedd, diogelu rhywogaethau, a budd net bioamrywiaeth, atega'r Cynllun hwn ymrwymiad y Brifysgol i gyfrifoldeb amgylcheddol, gwynwch ecolegol, a chydymffurfio â dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth Cymru.

EIN LLE: Drwy wella'r seilwaith gwyrdd, gwella cysylltedd cynefinoedd, ac integreiddio bioamrywiaeth i'r gwaith o ddylunio a rheoli campysau, mae'r Cynllun hwn yn cryfhau gwerth ecolegol ystâd PCYDDS. Mae'r camau hyn yn cyfrannu at fesur llwyddiant bioamrywiaeth o fewn blaenoriaeth Ystâd Gynaliadwy, gan sicrhau bod campysau yn cefnogi adferiad natur yn weithredol ac yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol i gymunedau cyfagos.

Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn yn cyd-fynd yn agos â'r Cynllun Rheoli Carbon a chynlluniau rheoli cynaliadwyedd ehangach, gan ffurfio rhan o fframwaith integredig i gyflawni amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol PCYDDS.

3. Cefndir a Gofynion Cyfreithiol

Ymatebodd y DU i'r golled barhaus o fioamrywiaeth fyd-eang trwy gyhoeddi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn 1994. Nododd raglen i warchod bioamrywiaeth y DU trwy greu cyfres o gynlluniau gweithredu i helpu cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth.

Nodwyd rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau o brif bwysigrwydd yng Nghymru o dan Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006.


Yn 2015, cyhoeddodd Cynulliad Cymru'r Cynllun Adfer Natur i Gymru. Nododd hwn sut y byddai Cymru yn cyflawni'r ymrwymadau a oedd yn ofynnol dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol a Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE, a oedd yn anelu at atal y dirywiad bioamrywiaeth erbyn 2020.

Yn ddiweddarach, cyflwynwyd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Adolygodd a diweddarodd y Ddeddf hon Adran 42 o NERC gan osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth'.

Mae Bil yr Amgylchedd 2020, Rhan 6: Natur a Bioamrywiaeth yn gwneud diwygiadau i Adran 40 o NERC. Mae'n gosod yn benodol y gofyniad ar gyrff cyhoeddus i asesu sut y gallant gymryd camau i wella a gwarchod bioamrywiaeth, ac wedyn cymryd y camau hyn.

4. Adeiladu ar lwyddiant yn y gorffennol Prosiect Pwll Caerfyrddin 2024

Nod y prosiect oedd gwella gwerth ecolegol y campws wrth ddarparu lleoliad tawel ar gyfer ymlacio. Cyn y trawsnewid, roedd yr ardal, sy'n weladwy o'r llyfrgell, yn llain o goncrit gyda phwll muriog heb blanhigion nad oedd iddo swyddogaeth ecolegol. Yn sgil mewnbwn gan ddylunwyr tirwedd ac wedi'i lywio gan arfarniadau ecolegol blaenorol, creodd y brifysgol bwll bywyd gwyllt bioamrywiol newydd. Mae'r pwll bellach yn cynnwys amrywiaeth leol o blanhigion ocsigenedig, arnofiol, ymylol brodorol ac addurnol a darpara ffynhonnell ddŵr ar gyfer ffawna. Yn ogystal â'r pwll, crëwyd man decin hygyrch ochr yn ochr, gan ddarparu lle uchel ar gyfer ymlacio ac arsylwi. Mae'r decin hwn wedi'i amgylchynu gan amrywiaeth o blanhigion a ddewiswyd ar gyfer eu gweadau, arogleuon a lliwiau. Mae hyn yn ymgysylltu â synhwyrâu lluosog ac yn darparu amgylchedd therapiwtig i fyfyrwyr a staff ac yn annog ymgysylltu a rhyngweithio â'n hamgylchedd naturiol.



Gerddi Dylan Thomas 2024

Nod y prosiect oedd gwella gwerth ecolegol yr ardaloedd trefol palmantog o amgylch yr adeilad a datblygu a gwella'r gerddi presennol. Yn ganolog i'r prosiect gosodwyd 4 o feinciau plannu ac fe'u plannwyd gyda rhywogaethau brodorol o'r prif fathau o bridd ledled y Deyrnas Unedig, tywod, priddglo, clai a sialc. Mae'r rhywogaethau amrywiol hyn yn tynnu sylw at yr amrywiaeth genedlaethol i annog rhyngweithio staff, myfyrwyr a'r cyhoedd â natur. Mae adnewyddu gerddi allanol yn mynd ymlaen gyda phlanhigion arfordirol brodorol yn flaenoriaeth i wella argaeledd bwyd peillwyr ac adar.

Rheoli Balsam Dulas 2024










Trefnodd y brifysgol ddigwyddiad addysg Balsam Himalaya ar ei champws yn Llambed. Cynhaliwyd cyfres o weithrediadau tynnu llaw mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru. Hysbysebwyd y digwyddiadau hyn i staff myfyrwyr, tîrfeddiannwyr cyhoeddus a lleol. Fe'u cynigiwyd yn gyfle galluogi i hyfforddi rhanddeiliaid lleol ynghylch yr arfer gorau ar gyfer rheoli Balsam Himalaya ymledol. Arweiniodd y digwyddiadau at ostyngiad sylweddol ym mhresenoldeb Balsam ar gampws Llambed. Gan fod y campws wedi'i leoli yn rhannau isaf Dulas isaf bydd ddileu'r rhywogaeth yn y dyfodol y llwyddiannus, yn dibynnu ar dirfeddiannwyr i fyny'r afon yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd i gael gwared arno a lleihau gwasgariad hadau.

Llwybrau Llesiant 2022-Parhaus

Fe'u datblygwyd yn 2022 gan ddarparu llwybr o fewn campysau Abertawe, Llambed a Chaerfyrddin i fyfyrwyr a staff fwynhau natur. Canolbwyntia'r llwybrau ar dynnu sylw at bwysigrwydd gwahanol agweddau ar reoli natur a thiroedd wrth wella bioamrywiaeth. Maent hefyd yn darparu seibiant naturiol o waith neu astudio. Mae'r llwybr yng Nghaerfyrddin a Llambed yn cynnwys byrddau ffeithlun gan dynnu sylw at y gwaith y mae'r tîm tiroedd wedi'i wneud i greu dolydd oddi mewn i'r ddau gampws.

5. Bioamrywiaeth ar y Campws a Chynlluniau Cyngorau Lleol

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant eisoes yn ceisio gwella ein perfformiad amgylcheddol ym meysydd gwastraff, ynni a thrafnidiaeth drwy ein System Rheoli Amgylcheddol. Rydyn ni'n ymestyn ein gwelliannau i fuddion bioamrywiaeth trwy ein CGB. Bydd hwn yn darparu gwelliannau amgylcheddol ffisegol clir, ond hefyd llawer o fuddion eraill. Yn ôl y Gymdeithas Amgylcheddol ar gyfer Prifysgolion a Cholegau, gall prifysgolion sydd ag agenda bioamrywiaeth weithredol ddisgwyl gweld:

-  Gwell enw da a delwedd werdd
-  Potensial i ddatblygu partneriaethau rhwng staff a myfyrwyr
-  Cyfleoedd ar gyfer gwyrddu addysg a'r cwricwlwm
-  Cyfraniad y campws at fyw'n iach a llesiant
-  Gwell cyfleoedd gwirfoddoli i fyfyrwyr
-  Mwy o gymorth gan awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio a datblygu newydd
-  Arbedion costau o ran cynnal a chadw
-  Cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol
-  Buddion ehangach o ran lleihau llifogydd a charbon

Mae'r Brifysgol yn unigryw gan fod pob lleoliad campws yn wahanol i'r lleill; cynigia hyn lawer o gyfleoedd i ddilyn amrywiaeth o fentrau ledled Cymru heb fod yn gyfyngedig i un dirwedd. Lleolir y Brifysgol ar draws pum campws, gan amrywio o safleoedd canol dinas i leoliadau gwledig. Ar draws y lleoliadau hyn mae oddeutu 11000 o fyfyrwyr yn mynychu'r Brifysgol ac mae'n cyflogi mwy na 2000 o aelodau staff.

Mae campws Abertawe mewn lleoliad trefol, gyda thri champws gwahanol ac mae'n gymharol wael o safbwynt cadwraethol. Ynndo, mae mosaig o adeiladau a thir noeth gyda glaswelltiroedd amwynder rheolaeth uchel, gwelyau o brysglwyni a gyflwynwyd ac sydd wedi'u trin a phlanhigion lluosflwydd byrhoedlog a choed unigol. Tynna hyn sylw at y posibilrwydd o gyfleoedd sylweddol i wella pethau. Gan fod campws IQ y Glannau wedi'i leoli mewn lleoliad arfordirol agored, bu anhawster yn y gorffennol i sefydlu a chefnogi twf rhywogaethau planhigion. Felly, planhigion gwydn sy'n addas iawn i amgylcheddau arfordirol, yw'r rhai y dylid eu dewis i'w plannu.

Cynigia campysau Llambled a Chaerfyrddin ragor o le ar gyfer gwella bioamrywiaeth na champws Abertawe, gan fod ganddyn nhw amrywiaeth gyfoethocach o gynefinoedd. Yn y naill a'r llall ceir ardaloedd mawr o laswelltir amwynder yn ogystal â glaswelltir gwael wedi'i led-wella. Mae campws Llambled, yn benodol, o bwys cadwraethol oherwydd bod aber yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Teifi yn llifo trwyddo. Felly, rhaid cymryd gofal arbennig gydag unrhyw ddatblygiadau bioamrywiaeth, gan sicrhau na chyflwynir unrhyw rywogaethau goresgynnol ac na ddifrodor y safle. Dynodwyd yr ACA oherwydd ei egin llystyfiant lle gwelir, yn aml, niferoedd mawr o adar craffanc-y-frân y nant *Ranunculus penicillatus* is-ryw. *Penicillatus*; a rhywogaethau gwarchoddedig a geir yn y cynefin hwn sy'n cynnwys Penlletwad *Cottus gobio*, Lamprai'r afon *Lampetra fluviatilis*, Lamprai'r nant *Lampetra planeri*, Lamprai'r môr *Petromyzon marinus*, Eog yr Iwerydd *Salmo salar*, Dyfrgi *Lutra lutra* a llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans*.

5a. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin

Mae CGB Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar y camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion ar gyfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd o'r pwys mwyaf yn Adran 7 a ddiweddarwyd yn 2026: cynefinoedd a rhywogaethau o brif bwysigrwydd ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae angen gwarchod y cynefinoedd a'r rhywogaethau hyn ac mae'r rhain yn rhan o'r hyn sy'n gwneud Sir Gaerfyrddin yn arbennig ac yn unigryw.

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar naw grŵp o gynefinoedd, sef, cynefinoedd a rhywogaethau Coetir, Ucheldir, Dŵr Croyw, Gwlypdiroedd, Tir Amaethyddol, Glaswelltir Iseldir a Rhostir, Tir Llwyd/Trefol, Arfordirol a Morol. Mae rhywogaethau wedi'u grwpio gyda chynefinoedd, fodd bynnag, mae cynlluniau gweithredu unigol i gefnogi nifer o rywogaethau er mwyn rheoli'r cynefin yn gadarnhaol neu gysylltu ac ehangu lle bo'n bosibl; golfan y mynydd, llygoden y dŵr, ystlumod, draenogod, dyfrgwn, pathew, gwiwer goch, brith y gors a brithribin brown, gludlys amryliw, penigan y porfeydd, tylluan wen (blaenoriaeth leol), ysgyfarnog, cwtiaid ac amffibiaid ac ymlusgiaid.

Ystyrir Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin a'u cynefinoedd blaenoriaeth drwy gydol datblygu ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

5b Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion

Datblygwyd CGBLI Ceredigion gyda Phartneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion ac fe'i cefnogir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru

Darpara'r Cynllun fframwaith ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth lleol gyda'r nod o gyfrannu at gyflawni targedau cenedlaethol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau allweddol. Mae'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn cynnwys Rhywogaethau Blaenoriaeth y DU (y rhai a ddiffinnir yn rhai sydd dan fygythiad yn fyd-eang neu sy'n dirywio yn y DU) a Rhywogaethau o Bryder Cadwraethol (ac y diffinnir eu bod yn bodloni un neu ragor o'r pedwar maen prawf a nodir yn Adroddiad Grŵp Llywio'r DU 1995).

Crëwyd Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau yn rhan o'r CGBLI, gan sefydlu targedau cadwraeth ar gyfer gweithredu o blaid cadwraeth, statws cyfredol y rhywogaeth/cynefin a 'phartner arweiniol' i weithredu ac adolygu. Mae'r Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd yn cynnwys coed ynn cymysg ucheldir, coedwigoedd derw ucheldir, coetir gwlyb ac ymylon ochr y ffordd. Mae'r Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau yn cynnwys y rugiar ddu *Lyrurus tetricus*, yr ysgyfarnog *Lepus europeus*, marchwellt *Elymus repens* a'r bicwnen *Asilus crabroniformis*.

Ystyriwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion drwy gydol datblygiad ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

5c Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe

Mae CGBLI Cyngor Abertawe yn nodi'r camau strategol sydd eu hangen i warchod cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth a bioamrywiaeth ehangach. Ei nod yw diogelu, rheoli, gwella a hyrwyddo amgylchedd naturiol a harddwch naturiol eithriadol Abertawe.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 15 amcan strategol dros bum thema allweddol:

1. Deall yr amgylchedd naturiol – *Archwiliad*
2. Amddiffyn a diogelu'r amgylchedd naturiol – *Cynlluniau, polisiau a deddfwriaeth*
3. Rheoli a gwella'r amgylchedd naturiol – *Tîm ystadau ar y safle*
4. Deall a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol – *Codi ymwybyddiaeth a chynnwys y gymuned*
5. Dod o hyd i'r adnoddau – *Grantiau, cyllid a rheoli cyllideb*

Ystyrir Strategaeth Bioamrywiaeth Leol a Chynllun Gweithredu Abertawe drwy gydol datblygiad ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

6. Cynefinoedd a rhywogaethau o bwys cadwraethol

Datblygwyd y tablau isod trwy Arolwg Cynefinoedd Cam 1 a gynhaliwyd ym mhob un o'r tri campws ym mis Medi 2021. Mae'r cynefinoedd wedi'u cynnwys os ydynt yn Adran 7 o gynefinoedd a rhywogaethau Deddf yr Amgylchedd sydd o bryder cadwraethol arbennig yng Nghymru, neu os ydynt yn darparu gwasanaethau ecosystem pwysig. Mae adran 7 yn disodli adran 42 o Ddeddf NERC.

Mae mapiau cynefinoedd o bob campws wedi'u cynhyrchu a'u hatodi ar ffurf atodiad i'r CGB hwn. Diweddarir y rhain yn flynyddol. Ar hyn o bryd does dim rhestrau cyflawn gennym ni o'r holl blanhigion ac anifeiliaid sy'n defnyddio'r campysau. Cymerir cyfleoedd i gynyddu gwybodaeth yn awr ac yn y dyfodol. Cynhelir arolygon presenoldeb/absenoldeb penodol i rywogaethau pan fydd tymor yr arolwg ecolegol 2025 yn dechrau. Bydd hyn yn caniatáu cofnodi rhywogaethau o bwys cadwraethol ar bob campws, ac wedyn gosodir targedau cadwraeth.

Mae'r wybodaeth yn y tablau isod yn tynnu sylw at flaenoriaethau bioamrywiaeth cyfredol ac fe'u diweddarir wrth i wybodaeth newydd ddod i law, gan ganiatáu i'r rheolwyr wella ymhellach. Gellir cynnal arferion rheoli da gyda gwybodaeth ragarweiniol yn unig, gan gynnwys lleihau'r defnydd o blaladdwyr/chwynladdwyr, lleihau amllder torri glaswellt, caniatáu i flodau gwyllt hadu a rheoli rhywogaethau goresgynnol.

6a Rhywogaethau Campws Abertawe

Tabl 1. Cynefinoedd o bwys cadwraethol ar Gampws Abertawe PCYDDS

Cam 1 Math o Gynefin	Cynefin Blaenoriaeth S7?	Rheswm dros gynnwys yn CGB (os nad S7)	Targed Cadwraeth
A3.2 Parcdir a Choed Gwasgaredig	le		Cynnal yr ehangder; gwella ansawdd; amddiffyn coed aeddfed/hynod; llacio rheolaeth mewn mannau priodol i ddatblygu rhywogaethau er mwyn iddynt flodeuo a hadu
J1.2 Glaswelltir Amwynder	Nage	Potensial i wella; darparu cynefinoedd ar gyfer infertebratau, adar a mamaliaid bach; cymhorthion gyda draenio	Cynnal yr ehangder; gwella ansawdd; datblygu mannau i'w rheoli yn ddolydd blodau gwyllt/glaswelltiroedd sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau (gall weithredu yn gynefin cyswllt mewn ardaloedd adeiledig); caniatáu ardaloedd o dir aflonyddgar/noeth ar gyfer pryfed; cyfundrefnau cynnal a chadw cydymdeimladol; gadael ymyl o laswelltir hirach ochr yn ochr ag unrhyw nodweddion megis ffiniau neu ffosydd
J1.3 Llystyfiant Dros Dro Wedi'i Drin /Lluosflwydd Byr	Nage	Potensial ar gyfer gwella; Darpariaeth cynefinoedd ar gyfer infertebratau; bwydo pryfed peillio	Cynnal yr ehangder; os cynyddir yr ehangder ceisio defnyddio rhywogaethau brodorol (er bod amrywiaeth rhywogaethau/strwythur yn bwysicach na bod yn frodorol; gwella ansawdd i'w ddefnyddio gan bryfed peillio)
J1.4 Llwyn a Gyflwynwyd wedi'i Drin	Nage	Potensial ar gyfer gwella; Darparu cynefinoedd ar gyfer infertebratau ac adar; bwydo pryfed peillio	Cynnal yr ehangder; os cynyddir yr ehangder ceisio defnyddio rhywogaethau brodorol; gwella ansawdd i'w ddefnyddio gan bryfed peillio; cynnal/annog ardaloedd heb eu trin yn gynefin ar gyfer mamaliaid bach, adar a phryfed
J2.1 Gwrych Cyfan Gwael o ran Rhywogaethau	le		Cynnal/Cynyddu'r ehangder; gwella ansawdd; byddai rheolaeth lai trwyadl yn annog gwrych trwchus i ddatblygu, gan annog ffrwythau, aeron a hadau; annog twf llystyfiant tal ar hyd gwaelod gwrychoedd

J2.3 Gwrychoedd gyda Choed	Ie		Cynnal/Cynyddu'r ehangder; gwella ansawdd; byddai rheolaeth lai trwyadl yn annog gwrych trwchus i ddatblygu, gan annog ffrwythau, aeron a hadau; annog twf llystyfiant tal ar hyd gwaelod gwrychoedd
J2.5 Wall	Nage	Cefnogi mwsoglau, cennau a rhedyn; cynefin pryfed	Cynnal yr ehangder; annog planhigion dringo
J3.6 Adeiladau	Nage	Cynefin posibl ar gyfer ystlumod ac adar (rhywogaethau S7 posibl) – clwydo/nythu	Gwella ansawdd; cynnig cynefinoedd newydd trwy doeau gwyrdd, blychau ystlumod/adar, brics pryfed; datblygiad ag ymwybyddiaeth amgylcheddol
J4 Tir Noeth	Nage	Potensial i wella gan fod y nesaf beth i ddim diddordeb ecolegol; Cynefin torheulo i ymlusgiaid bach	Cynnal yr ehangder
Coed Unigol	Nage	Cynefin posibl ar gyfer ystlumod ac adar (rhywogaethau S7 posibl) – clwydo/nyth	Cynyddu'r ehangder - gwella cysylltedd cynefinoedd

Ychwanegir tabl sy'n rhestru'r rhywogaethau o bwys cadwraethol ar Gampws Abertawe PCYDDS at y CGB hwn ar ôl cwblhau arolygon ecolegol penodol fesul rhywogaeth yn nhymor ecoleg 2025.

6b Rhywogaethau Campws Llamed

Tabl 2. Cynefinoedd o bwys cadwraethol ar Gampws Llamed PCYDDS

Cam 1 Math o Gynefin	Cynefin Blaenoriaeth S7?	Rheswm dros gynnwys yn y CGB (os nad S7)	Targed Cadwraeth
A3.1 Coetir Lled-naturiol Cymysg	Ie		Cynnal yr ehangder; amddiffyn coed aeddfed/hynod; gwella ansawdd; cadw isdyfiant/prysgwydd; cyfle i gynyddu cysylltedd cynefinoedd; planhigion rhywogaethau brodorol i arallgyfeirio cynefinoedd; cadw pentyrrau boncyffion/pren marw; sgrinio priddoedd wedi'u mewnforio i atal cyflwyniad rhywogaethau anffrodorol; pan fo'n briodol, teneuo

			llinynnau trwchus o egin blanhigion i atal coetir tywyll, trwchus; caniatáu mannau agored i annog fflora daear i ddatblygu; codi blychau adar/ystumod ar goed aeddfed
A2 Prysgrwydd Parhaus a Gwasgaredig	Nage	Darparu cynefin a bwyd ar gyfer adar, pryfed a mamaliaid bach; adnoddau ar gyfer nythu adar ac ystumod porthiant a chymudo	Cynnal/Cynyddu'r ehangder; annog twf rhywogaethau brodorol
A3 Parcdir a Choed Gwasgaredig	Ie		Cynnal yr ehangder; gwella ansawdd; amddiffyn coed aeddfed/hynod llacio rheolaeth mewn mannau priodol i ddatblygu rhywogaethau i flodeuo a hadu
B Glaswelltir Gwael wedi'i Led-wella	Nage	Cymorth i ddraenio; cynefin a bwyd ar gyfer peillwyr	Cynnal yr ehangder; gwella ansawdd; cynyddu rhywogaethau brodorol/gwylt/ glaswelltiroedd cyfoethog o ran rhywogaethau (gallant weithredu'n gynefin cyswllt mewn ardaloedd adeiledig); caniatáu ardaloedd o dir aflonyddgar/noeth ar gyfer pryfed; cyfundrefnau cynnal a chadw cydymdeimladol; gadael ymyl o laswelltir hirach ochr yn ochr ag unrhyw nodweddion megis ffiniau neu ffosydd
C3.1 Rwderaidd Tal	Nage	Darparu cynefin ar gyfer adar ac ymlusgiaid	Cynnal yr ehangder; gwella ansawdd
G2 Dŵr Rhedegog	Ie	ACA Afon Teifi	Dylid ei gadael heb aflonyddu arni – dylai unrhyw waith gynnwys 'stribed clustogi' i gynnal coridor glannau'r afon
I1 Amlygiad Artiffisial ac Awgrymiadau Gwastraff	Nage	Darpariaeth cynefinoedd ar gyfer mamaliaid bach, pryfed a ffyngau	Gwella ansawdd cynefin
Coed Unigol	Nage	Cynefin posibl ar gyfer ystumod ac adar (rhywogaethau S7 posibl) – clwydo/nythu; cyfle i gynyddu cysylltedd cynefinoedd	Cynyddu'r ehangder – gwella cysylltedd cynefinoedd

J1.2 Glaswelltir Amwynder	Nage	Potensial i wella am ei fod yn cynnig y nesaf beth i ddim diddordeb ecolegol; gall gynneg darpariaeth cynefinoedd ar gyfer infertebratau, adar a mamaliaid bach; cymhorthion gyda draenio	Cynnal yr ehangder; gwella'r ansawdd; datblygu ardaloedd i'w rheoli yn ddolydd blodau gwyllt/glaswelltiroedd sy'n gyfoethog o rywogaethau (gall weithredu'n gynefin cyswllt mewn mannau adeiledig); caniatáu ardaloedd o dir aflonyddgar/noeth ar gyfer pryfed; cyfundrefnau cynnal a chadw cydymdeimladol; gadael ymyl o laswelltir hirach ochr yn ochr ag unrhyw nodweddion megis ffiniau neu ffosydd
J1.3 Llystyfiant Dros Dro/Lluosflwydd Byr wedi'i Drin	Nage	Potensial i wella; Darparu cynefinoedd ar gyfer infertebratau; bwydo pryfed peillio	Cynnal ehangder; os cynyddir yr ehangder ceisio defnyddio rhywogaethau brodorol (er bod amrywiaeth rhywogaethau/strwythur yn bwysicach na bod yn frodorol; gwella ansawdd i'w ddefnyddio gan bryfed peillio
J1.4 Llwyn a Gyflwynwyd wedi'i Drin	Nage	Potensial i wella; darparu cynefinoedd ar gyfer infertebratau ac adar; bwydo pryfed peillio	Cynnal yr ehangder; os cynyddir yr ehangder ceisio defnyddio rhywogaethau brodorol; gwella ansawdd i'w ddefnyddio gan bryfed peillio; cynnal/annog mannau heb eu trin yn gynefin ar gyfer mamaliaid bach, adar a phryfed
J2.1 Gwrych Cyfan Gwael o ran Rhywogaethau	Ie		Cynnal/Cynyddu'r ehangder; gwella ansawdd; cyfle i gynyddu cysylltedd cynefinoedd; byddai rheolaeth lai trwyadl yn annog gwrych trwchus i ddatblygu, gan annog ffrwythau, aeron a hadau; annog twf llystyfiant tal ar hyd gwaelod gwrychoedd
J2.3 Gwrychoedd gyda Choed	Nage		Cynnal/Cynyddu'r ehangder; gwella ansawdd; cyfle i gynyddu cysylltedd cynefinoedd; byddai rheolaeth lai trwyadl yn annog gwrych trwchus i ddatblygu, gan annog ffrwythau, aeron a hadau; annog twf llystyfiant tal ar hyd gwaelod gwrychoedd
J2.5 Wal	Nage	Cefnogi mwsoglau, cennau a rhedyn; cynefin pryfed	Cynnal yr ehangder; annog planhigion dringo
J3.6 Adeiladau	Nage	Cynefin posibl ar gyfer ystlumod ac adar (rhywogaethau S7 posibl) – clwydo/nythu	Gwella ansawdd; cynnig cynefinoedd newydd trwy doeau gwyrdd, blychau ystlumod/adar, brics pryfed; datblygu amgylcheddol ymwybodol

J4 Tir Noeth	Nage	Potensial i wella am ei fod yn cynnig y nesaf beth i ddim diddordeb ecolegol; gall gynnig cynefin torheulo i ymlusgiaid bach	Cynnal yr ehangder
--------------	------	--	--------------------

Ychwanegir tabl sy'n rhestru'r rhywogaethau o bwys cadwraethol ar Gampws Llambed PCYDDS at y CGB hwn ar ôl cwblhau arolygon ecolegol penodol fesul rhywogaeth yn nhymor ecoleg 2025.

6c Rhywogaethau Campws Caerfyrddin

Tabl 3. Cynefinoedd o bwys cadwraethol ar Gampws Caerfyrddin PCYDDS

Cam 1 Math o Gynefin	Cynefin Blaenoriaeth S7?	Rheswm dros gynnwys yn y CGB (os nad S7)	Targed Cadwraeth
A3.1 Coetir Lled-naturiol Cymysg	Ie		Cynnal yr ehangder; amddiffyn coed aeddfed/hynod; gwella ansawdd; cadw isdyfiant/prysgwydd; planhigion rhywogaethau brodorol i arallgyfeirio cynefinoedd; cadw pentyrrau boncyffion/pren marw; sgrinio priddoedd wedi'u mewnforio i atal cyflwyno rhywogaethau anfrodorol; pan fo'n briodol, teneuo llinynnau trwchus o egin blanhigion i atal coetir tywyll, trwchus; caniatáu manau agored i annog fflora daear i ddatblygu; codi blychau adar/ystumod ar goed aeddfed
A2 Prysgwydd Parhaus a Gwasgaredig	Nage	Darparu cynefin a bwyd ar gyfer adar, pryfed a mamaliaid bach; adnoddau ar gyfer adar nythu ac ystumod fforiol a chymudo	Cynnal/cynyddu'r ehangder; annog twf rhywogaethau brodorol; cyfle i gynyddu cysylltedd cynefinoedd
A3 Parcdir a Choed Gwasgaredig	Ie		Cynnal yr ehangder; gwella ansawdd; amddiffyn coed aeddfed/hynod; cyfle i gynyddu cysylltedd cynefinoedd; cynyddu rhywogaethau ac amrywiaeth strwythurol; llacio rheolaeth mewn manau priodol i ddatblygu rhywogaethau i flodeuo a hadu

b Glaswelltir gwael wedi'i ledwella	Nage	Cymorth i ddraenio; cynefin a bwyd ar gyfer peillwyr	Cynnal yr ehangder; gwella ansawdd; cynyddu rhywogaethau brodorol/gwyllt; llacio rheolaeth mewn ardaloedd priodol i ddatblygu rhywogaethau i flodeuo a hadu
C3.1 Rwderaidd Tal	Nage	Darparu cynefin ar gyfer adar ac ymlusgiaid	Cynnal yr ehangder; gwella ansawdd
E3.2 Gwern Basn	Nage	Potensial i wella; cymorth i ddraenio;	Cynnal/Cynyddu'r ehangder; gwella ansawdd
F2.1 Llystyfiant ymylol	Nage	Diogelu glannau'r afon; darparu cynefin	Cynnal ehangder; gwella ansawdd
G1.2 Pyllau a wnaed gan ddyn	Ie		Adfer y pwll i gyflwr ffafriol; gwella/cynnal ansawdd dŵr; sefydlu llystyfiant ymylol a dyfrol; nodi ardaloedd ar gyfer pyllau newydd
I1 Aramlygiad Artiffisial a Thomenni Gwastraff	Nage	Darparu cynefinoedd ar gyfer mamaliaid bach, pryfed a ffyngau	Gwella ansawdd cynefin
Coed Unigol	Nage	Cynefin posibl ar gyfer ystlumod ac adar (rhywogaethau S7 posibl) – clwydo/nythu	Cynyddu'r ehangder – gwella cysylltedd cynefinoedd; cyfle i gynyddu cysylltedd cynefinoedd
J1.1 Âr	Ie		Cynnal/Cynyddu'r ehangder; gwella ansawdd
J1.2 Glaswelltir Amwynder	Nage	Potensial i wella gan y cynigir y nesaf beth i ddim diddordeb ecolegol; gall gynnig; darpariaeth cynefinoedd ar gyfer infertebratau, adar a mamaliaid bach; cymhorthion gyda draenio	Cynnal yr ehangder; gwella ansawdd; datblygu manau i'w rheoli'n ddolydd blodau gwyllt/glaswelltiroedd sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau (gallant weithredu'n gynefin cysylltu mewn ardaloedd adeiledig); caniatáu ardaloedd o dir aflonyddgar/noeth ar gyfer pryfed; cyfundrefnau cynnal a chadw cydymdeimladol; gadael ymyl o laswelltir hirach ochr yn ochr ag unrhyw nodweddion megis ffiniau neu ffosydd

J1.3 Llystyfiant Dros Dro/ Lluosflwydd Byr	Nage	Potensial i wella; Darpariaeth cynefinoedd ar gyfer infertebratau; bwydo pryfed peillio	Cynnal yr ehangder; os cynyddir yr ehangder ceisio defnyddio rhywogaethau brodorol (er bod amrywiaeth rhywogaethau/strwythur yn bwysicach na'u cymeriad brodorol); gwella ansawdd i'w ddefnyddio gan bryfed peillio
J1.4 Prysglwyn a Gyflwynwyd wedi'i Drin	Nage	Potensial i wella; Darparu cynefinoedd ar gyfer infertebratau ac adar; bwydo pryfed peillio	Cynnal ehangder; os cynyddir yr ehangder ceisio defnyddio rhywogaethau brodorol; gwella ansawdd i'w ddefnyddio gan bryfed peillio; cynnal/annog ardaloedd heb eu trin yn gynefin ar gyfer mamaliaid bach, adar a phryfed
J2.1 Gwrych Cyfan Gwael o ran Rhywogaethau	Ie		Cynnal/Cynyddu'r ehangder; gwella ansawdd; cyfle i gynyddu cysylltedd cynefinoedd; byddai rheolaeth lai trwyadl yn annog gwrych trwchus i ddatblygu, gan annog ffrwythau, aeron a hadau
J2.3 Gwrychoedd gyda Choed	Ie		Cynnal/Cynyddu'r ehangder; gwella ansawdd; cyfle i gynyddu cysylltedd cynefinoedd; byddai rheolaeth lai trwyadl yn annog gwrych trwchus i ddatblygu, gan annog ffrwythau, aeron a hadau; annog twf llystyfiant tal ar hyd gwaelod gwrychoedd
J2.5 Wal	Nage	Cefnogi mwsoglau, cennau a rhedyn; cynefin pryfed	Cynnal yr ehangder; annog planhigion dringo
J3.6 Adeiladau	Nage	Cynefin posibl ar gyfer ystlumod ac adar (rhywogaethau S7 posibl) – clwydo/nythu	Gwella ansawdd; cynnig cynefinoedd newydd trwy doeau gwyrdd, blychau ystlumod/ adar, brics pryfed; datblygiad amgylcheddol ymwybodol
J4 Tir Noeth	Nage	Potensial ar gyfer gwella gan y cynigir y nesaf beth i ddim diddordeb ecolegol; gall gynnig; Cynefin ymlusgiaid bach	Cynnal yr ehangder

Ychwanegir tabl sy'n rhestru'r rhywogaethau o bwys cadwraethol ar Gampws Caerfyrddin PCYDDS at y CGB hwn ar ôl cwblhau arolygon ecolegol penodol fesul rhywogaeth yn nhymor ecoleg 2025.

7. Targedau CAMPUS

Er mwyn rheoli'n rhagweithiol holl dargedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) y Cynlluniau Rheoli sy'n gysylltiedig â Chynaliadwyedd, mae'r targedau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn wedi eu cadw yn y ddogfen "Targedau CAMPUS Cynaliadwyedd PCYDDS".

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys person cyfrifol, rhanddeiliaid, dulliau adrodd a chamau gweithredu ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun hwn. Mae'r rhain wedi'u halinio â'r cynllun hwn a thargedau Datgarboneiddio a Bioamrywiaeth Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Maent yn gyfuniad o newidiadau seilwaith ymarferol, newidiadau ymddygiadol a strategaethau ymgysylltu i sicrhau dull systematig o wella bioamrywiaeth ar draws ein safleoedd.

Gellir dod o hyd i'r targedau yma:

https://uowtsd.sharepoint.com/teams/Sustainability_7fuztl_GRP/Shared%20Documents/General/Policy%20&%20Strategy/Strategy%202025-2030/UWTSD SMART Targets.xlsx

Bydd targedau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn yn disgyn i 4 categori a restrir isod:





1. **Rheoli ac Adrodd**
 - I. Sicrhau dull system rheoli strwythuredig, aml-randdeiliad
 - II. Sicrhau yr adroddir ar gynnydd/problemau o ran y CGB ar y campws
2. **Arolygu, Monitro a Rheoli Data**
 - I. Cytuno ar raglen o gasglu data ac arolygon i fonitro tueddiadau/cynnydd
 - II. Dylunio a chomisiynu arolygon (gan gynnwys arolygon rhywogaethau a warchodir
 - III. Cyflawni cyfrifiadau metrig bioamrywiaeth
3. **Rheoli Cynefinoedd a Rhywogaethau**
 - I. Cynnal a gwella bioamrywiaeth bresennol ar y campws
 - II. Gwella cysylltedd cynefinoedd/cyfuno manau gwyrdd a llwyd ar y campws
 - III. Sefydlu ardaloedd cynefin newydd a chyflwyno rhywogaethau brodorol, pan fo'n briodol
 - IV. Sicrhau bod gweithgareddau a datblygiadau PCYDDS yn arwain at ennill net o ran bioamrywiaeth gyffredinol
4. **Ymgysylltu, Codi Ymwybyddiaeth ac Addysg**
 - I. Archwilio'r posibilrwydd o (ail)gyflwyno clybiau garddio/rhandiroedd
 - II. Archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio datblygiad CGB yn adnodd addysgu
 - III. Sicrhau ymgysylltiad â staff, myfyrwyr a'r gymuned leol
 - IV. Codi ymwybyddiaeth o rôl PCYDDS wrth wella bioamrywiaeth
 - V. Defnyddio bioamrywiaeth i hyrwyddo byw'n iach a llesiant

8. Monitro ac Adrodd



Bydd monitro perfformiad carbon yn gweithredu o fewn y fframwaith llywodraethu a sefydlwyd o dan 'Flaenoriaeth Strategol 6: Monitro ac Adrodd' Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS.

Bydd goruchwyllo yn dilyn model sicrwydd tair llinell y Grŵp:





Goruchwyliaeth Weithredol

-  Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd
-  Grŵp Llywio Cynaliadwyedd (GLIC)
-  Integreiddio i'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd
-  Adrodd ar y dangosyddion perfformiad allweddol bob tymor




Goruchwyliaeth Llywodraethu

-  Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad
-  Cyngor y Brifysgol

Sicrwydd Allanol


-  System Rheoli Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd
-  Archwiliad allanol blynyddol
-  Achrediad y Faner Werdd
-  Llywodraeth Cymru yn adrodd ar Adran 6

Y cynnydd fydd:

-  Adroddir yn flynyddol drwy Adroddiad Cynaliadwyedd PCYDDS
-  Wedi'i integreiddio i ddangosfyrddau dangosyddion perfformiad allweddol sefydliadol
-  Wedi'i alinio pan fo'n briodol â fframweithiau cydnabyddedig megis SBTi

9. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill

Mae cyfres o gynlluniau rheoli cynaliadwyedd wedi'u datblygu ar gyfer y cyfnod 2025-2030:

-  Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Grŵp 25-30
-  Cynllun Lleihau Carbon 25-30
-  Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 25-30
-  Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 25-30
-  Cynllun Rheoli Ynni 25-30
-  Cynllun Teithio Cynaliadwy 25-30
-  Cynllun Rheoli Gwastraff 25-30
-  Cynllun Rheoli Dŵr 25-30
-  Cynllun Bwyd Cynaliadwy 25-30

Awdur(on) y polisi:

Dan Priddy

Teitl y Swydd: Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.

Koi Merebark

Teitl y Swydd: Rheolwr Cynaliadwyedd

Wedi'i gymeradwyo gan:

Peter Mannion

Prif Swyddog Gweithredu | Cadeirydd y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd

Dyddiad: 01/06/2026

Rheolydd fersiynau'r ddogfen

Rhif Fersiwn:	Rheswm dros newid:	Awdur:	Dyddiad newid:

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

A yw'r Polisi yn berthnasol i: AU

Dyddiad cadarnhau: 01 / 06 / 2026

Dyddiad yn effeithiol o: 01 / 06 / 2026

Dyddiad adolygu polisi: 01 / 06 / 2027

I'w gyhoeddi: ar wefan PCYDDS



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David